ENTREPRENEUR ELUSENNOL

Dros y 30 mlynedd diwethaf, mae Tywysog Cymru wedi llwyddo i adnabod angen elusennol ac i sefydlu a hybu elusennau i ddiwallu'r angen yna. Ers dyddiau cynnar ei ymddiriedolaeth, *The Prince's Trust*, yng nghanol yr 1970au, tyfodd ei ddiddordebau elusennol i'r fath raddau fod ei 16 elusen graidd yn cynrychioli, fel grŵp, menter elusennol fwyaf y DU sy'n cwmpasu amryw o achosion.

Mae'r elusennau'n cynrychioli safbwynt arloesol y Tywysog yn y tymor hir. Gyda'i gilydd, maen nhw'n ceisio rhoi sylw i anghenion sydd, hyd yn hyn, heb eu diwallu. Gymaint yw mesur gwaith Elusennau'r Tywysog fel y bu gofyn yn 2005-06 i'w Uchelder Brenhinol helpu, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, i godi tua £110 miliwn i gynorthwyo'u gweithgareddau.

£110 MILIWN AT ELUSENNAU

Tra bo'r holl elusennau'n endidau annibynnol sydd â'u byrddau rheoli eu hunain, mae'r 16 mudiad yn rhannu enw grŵp, Elusennau'r Tywysog, ac yn cydweithio'n agos â Swyddfa Elusennau Clarence House.

Fel entrepreneur elusennol, efallai fod Tywysog Cymru'n fwyaf enwog am sefydlu *The Prince's Trust*, elusen sy'n helpu pobl ifanc i oresgyn eu rhwystrau a sicrhau llwyddiant eu bywydau. Mae'r ymddiriedolaeth yma'n dathlu ei phen-blwydd yn 30 oed eleni. Mewn nifer o ffyrdd, mae'n cynnig patrwm ar gyfer dull gweithredu Ei Uchelder Brenhinol ym maes entrepreneuriaeth elusennol. Ar ôl adnabod angen, mae'n mynd ati i sefydlu elusen i lenwi'r bwlch, cyn mynd ymlaen i oruchwylio'i strategaeth a'i dull rheoli ac i godi arian i ariannu ei gweithgareddau. Yn 2005-06, helpodd y Tywysog, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, i godi tua £110 miliwn i gynorthwyo gwaith ei 16 elusen graidd.

Ers i *The Prince's Trust* gael ei sefydlu yn 1976, mae Ei Uchelder Brenhinol wedi sefydlu neu fynd yn Llywydd ar 16 mudiad sy'n canolbwyntio ar feysydd sy'n ganolog i fywydau pobl: eu cartrefi a'u cymunedau, eu hiechyd, eu haddysg, eu gwaith, yr amgylchedd a'r celfyddydau.

Mae eu gwaith yn amrywio o waith arloesi gyda phobl ifanc, i adfer a meithrin amgylchedd iach, a hybu ymdeimlad o gyfrifoldeb cymdeithasol ymysg arweinwyr busnesau. Yn ogystal â'r mudiadau gweithredu craidd, mae dwy elusen ariannu, sef Sefydliad Elusennau'r Tywysog yn y DU (*The UK Prince's Charities Foundation*) a Sefydliad UDA (*The US Foundation*). Swyddfa Tywysog Cymru sy'n rheoli'r ddau. Mae Tywysog Cymru'n cefnogi ei elusennau'n ariannol drwy ei ddau sefydliad elusennol a thrwy lwyddiant *Duchy Originals*. Un o brif gwmnïau bwydydd a diodydd organig a naturiol y DU yw *Duchy Originals*, ac mae holl elw'r cwmni'n mynd i Sefydliad Elusennau'r Tywysog.

Tra bo'r holl elusennau'n endidau annibynnol sydd â'u byrddau rheoli eu hunain, mae'r 16 mudiad yn rhannu enw grŵp, Elusennau'r Tywysog (cyfeiriwch at dudalen 56). Maen nhw'n cydweithio'n agos iawn â Swyddfa Elusennau Clarence House, dan arweiniad Syr Tom Shebbeare, o ran materion fel rheoli corfforaethol, codi arian, cynllunio a chyfathrebu. Wrth ystyried y materion yma, mae'r elusennau ar y cyd wedi mabwysiadu cod gweithredu gwirfoddol.

Mae'r Swyddfa Elusennau hefyd yn gweithio i greu a datblygu syniadau newydd. Dau o'r rhain yw Sefydliad y Bhumi Vardaan, a gafodd ei lansio ym mis Mawrth yn ystod ymweliad Eu Huchelderau Brenhinol a'r Punjab, a Rhaglen Caergrawnt y Tywysog ar gyfer Addysgu (estyniad ar ei Ysgol Haf Addysg) a gafodd ei lansio ym mis Mehefin 2006. Yn ogystal â'i elusennau craidd, mae'r Tywysog yn Llywydd neu'n Noddwr ar dros 370 o elusennau, ac mae'n dangos diddordeb byw ym mhob un.

“Y demtasiwn yn aml yw diystyru’r grwpiau yma o bobl ifanc dan ryw fath o enw torfol: ‘ieuenctid’, ‘hwdis’, ‘rhai sy’n gaeth i gyffuriau’ neu ‘hwliganiaid’ dienw a di-wyneb. Wrth gwrs bod rhaid i ni gondemnio ymddygiad ymosodol neu anghyfreithlon, ond allwn ni ddim diystyru pob person ifanc sy’n cael trafferth gyda’i fywyd. Rhaid i ni drin pobl ifanc i gyd fel unigolion, a rhoi’r sgiliau iddyn nhw y byddan nhw eu hangen i lwyddo. Dyma’r ffordd i fuddsoddi yn y dyfodol er mwyn i bobl ifanc wireddu eu llawn botensial er eu lles eu hunain, er lles eu cymunedau ac er lles y genedl. Yn ei degfed flwyddyn ar hugain, dyna yw diben fy ymddiriedolaeth o hyd.”

Tywysog Cymru, 2006

CLODFORI

30

MLYNEDD O HELPU POBL IFANC

1976
Aeth Tywysog Cymru ati i sefydlu *The Prince's Trust* yn 1976 gyda'r tâl diswyddo o £7,400 a gafodd wrth adael y Llynges. Rhedodd yr ymddiriedolaeth 21 project peilot ar draws y wlad. Cafodd Pauline O'Halloran, 19 oed, grant i redeg canolfan i bobl ifanc Stad Haggerston, Dwyrain Llundain. Cafodd dau gyn-droseddwr grant i redeg clwb pysgota. Cafodd arian gan yr ymddiriedolaeth ei ddefnyddio i logi pwll nofio yng Nghernyw i hyfforddi pobl ifanc i achub bywydau, ac i redeg cynllun atgyweirio beiciau.

Dyma gipolwg ar *The Prince's Trust* dros y tair degawd ddiwethaf. Mae rhagor o wybodaeth ar wefan yr ymddiriedolaeth: www.princes-trust.org.uk

"Heb *The Prince's Trust*, byddwn i mewn cell carchar, mewn arch neu'n gorwedd yn y cwter gyda nodwydd yn fy mraich."
Barry Charlton, 2006

"I raddau helaeth iawn, ysbrydoliaeth *The Prince's Trust* sy'n gyfrifol am y cynnydd mwyaf mewn hunangyflogaeth yn ein hanes."
Gordon Brown, 2004

1983
Lansio'r Rhaglen Fusnes er mwyn helpu pobl 18-30 oed i ddechrau eu busnesau eu hunain trwy gynnig benthyciadau llog isel a grantiau i'r rheini sydd heb unrhyw ffordd arall o ddod o hyd i'r cyfalaf.

1986
Cafodd gwmni newydd Attik grant o £1,000. Mae bellach yn asiantaeth ddylunio ryngwladol sy'n werth miliynau o bunnoedd.

1990
Lansio'r Rhaglen Wirfoddoli – cafodd ei henw ei newid yn Rhaglen Tîm yn 2003. Mae'r cwrs 12 wythnos yma'n rhoi hunanhyder a chymhelliad i bobl ifanc.

1990
Dechrau canolfannau cynorthwyo astudio. Wedi'u mabwysiadu gan y Llywodraeth saith mlynedd yn ddiweddarach, gyda chlybiau 'xl' i ysgolion yn dilyn yn 1998.

MAE'R YMDDIRIEDOLAETH YN CYFLOGI DROS 700 O BOBL AC MAE DROS 7,000 YN GWIRFODDOLI I'W CHEFNOGI.

ERS LANSIO'R RHAGLEN TÎM, MAE DROS 90,000 O BOBL IFANC WEDI YMUNO Â'R CYNLLUN DATBLYGU PERSONOL.

ER 1983, MAE *THE PRINCE'S TRUST* WEDI HELPU DROS 66,000 O BOBL IFANC I DDECHRAU BUSNESAU.

"Wrth graffu ar *The Prince's Trust*, mae'n bosib gweld mai dyma un o'r mudiadau sector gwirfoddol mwyaf llwyddiannus yn y byd, heb sôn am y wlad yma."
Tony Blair, 2006

1991
Dechrau swyddogol ar Raglen Llysgenhadon yr ymddiriedolaeth – bu cannoedd o sêr byd cerddoriaeth, chwaraeon ac actio'n cymryd rhan.

1997
Cychwyn y cynllun Gadael Gofal.

1999
Lansio rhaglen sy'n hybu cyfleoedd i bobl ifanc yr ardaloedd gwledig.

2004
Dechrau'r rhaglen sgiliau "Dod i Ddeall" (*Get Into*), sydd ar waith mewn sectorau fel coginio, chwaraeon a lletygarwch.

MAE GAN *THE PRINCE'S TRUST* DROS 800 O BARTNERIAID GWEITHREDOL A STRATEGOL.

MAE'R TIMAU MAE'R YMDDIRIEDOLAETH YN EU RHEDEG AR DRAWS Y WLAD YN CYFRANNU DROS £5.38 MILIWN I GYMUNEDAU LLEOL.

Y LLYNEDD YN UNIG, CYNORTHWYODD YR YMDDIRIEDOLAETH 41,680 O BOBL IFANC.

SEFYDLIAD BHUMI VARDAAN

Cafodd Menter Tywysog Cymru yn India'i sefydlu ar ôl ei ymweliad ag India yn ystod hydref 2003. Nod y fenter honno oedd cynnig cefnogaeth ariannol ac ymarferol i grŵp o fudiadau gwirfoddol sy'n weithgar mewn nifer o wahanol feysydd, er enghraifft, dŵr a gofal iechyd, sgiliau crefft a threftadaeth, ac entrepreneuriaeth ymysg pobl ifanc.

Aeth Ei Uchelder Brenhinol yn ôl i gwrdd rhai o'r mudiadau yma yn ystod ei daith ef a Duges Cernyw i India ym mis Mawrth 2006. Gwelodd y daith y Tywysog hefyd yn lansio Sefydliad Bhumi Vardaan. Nod y project yma yw helpu ffermwyr i ddatblygu ffyrdd mwy cynaliadwy o gynhyrchu bwyd.

Cafodd Sefydliad Bhumi Vardaan ei fodelu ar lwyddiant *Duchy Originals*, cwmni bwydydd organig y Tywysog yn y DU. Gobaith y sefydliad yw cyflawni'r un "cylch bendithiol" mae *Duchy Originals* wedi'i greu. Trwy annog ffermwyr India i ffermio mewn ffordd fwy cynaliadwy ac i farchnata'u cynnyrch dan un brand, y bwriad yw cynorthwyo cymunedau gwledig, diogelu'r amgylchedd, cynnig bwyd o well safon i gwsmeriaid, a chodi arian ar gyfer achosion da yn India.

Mae cartref y Sefydliad yn y Punjab. Oddi yno, bydd yn gweithio'n agos gyda pherchnogion ffermydd bach i'w helpu i drosi i ffermio organig ac i frandio a phecynnu eu cynnyrch i'w werthu. Aiff holl elw Bhumi Vardaan i elusennau er mwyn hybu datblygu cynaliadwy yn India. Dwy ffordd o wneud hyn yw cynnig adeiladweithiau cynaeafu dŵr a gwella cyfleusterau o ran addysg ac iechyd.

Rhywsut rywfodd, mae Bhumi Vardaan a'r projectau eraill mae'r Tywysog yn eu cynorthwyo yn India'n rhannu un nod gyffredin: creu'r sylfeini ar gyfer datblygu cynaliadwy. Y rhain yw sylfaen unrhyw wir welliannau mewn amodau byw a allai bara yn y tymor hir.

CYFLE A MENTER

UWCHBEN
Kynda Carter yn cael Gwobr Fenter Banc Brenhinol yr Alban gan y Tywysog yn ystod seremoni wobrwyo Clodfori Llwyddiant (*Celebrate Success*) *The Prince's Trust* ar 20 Chwefror 2006.

Ers sawl blwyddyn bellach, mae'r Tywysog wedi ymdrechu trwy ei elusennau i helpu pobl i wireddu eu talent a'u potensial. Mae'n gwneud hynny trwy gynorthwyo dynion a merched ifanc dan anfantais trwy waith *The Prince's Trust*, neu trwy gynnig cymorth i bobl hŷn trwy ei elusen PRIME (Menter y Tywysog ar gyfer Menter Aeddfed - *The Prince's Initiative for Mature Enterprise*), yr unig gorff cenedlaethol sy'n bodoli'n unswydd i helpu pobl dros 50 oed i sefydlu busnesau.

The Prince's Trust yw elusen hynaf ac enwocaf Ei Uchelder Brenhinol. Sefydlodd yr ymddiriedolaeth yn 1976 gyda'r tâl diswyddo o £7,400 a gafodd wrth adael y Llynges Frenhinol. Ei nod yw helpu pobl ifanc 14-30 oed i wireddu eu potensial a gweddnewid eu bywydau trwy gynnig cefnogaeth ymarferol fel hyfforddiant, mentora a chymorth ariannol i entrepreneuriaid ifanc. Mae'r ymddiriedolaeth yn canolbwyntio'i hymdrechion ar y rheini sydd wedi cael trafferthion yn yr ysgol, wedi bod mewn gofal, wedi bod mewn helynt gyda'r gyfraith neu sydd wedi bod yn ddi-waith am amser.

Bob blwyddyn, mae Tywysog Cymru'n mynd i lawer o wahanol ddigwyddiadau, derbyniadau a chyfarfodydd ar ran yr ymddiriedolaeth. Mae digwyddiadau sy'n perthyn i waith yr elusen yn rhan reolaidd o raglenni Ei Uchelder Brenhinol wrth ymweld â'r rhanbarthau. Yn ystod 2005, aeth i Belfast, Richmond yn ngogledd Sir Efrog, Burnley a Lerpwl.

Yn Burnley a Lerpwl, thema'r ymrwymiadau oedd chwaraeon. Aeth y Tywysog i ymweld â dau glwb pêl-droed lleol i weld sut mae'r ymddiriedolaeth yn defnyddio poblogrwydd pêl-droed i ysgogi pobl ifanc. Yn stadiwm Anfield yn Lerpwl, lle'r oedd yr ymddiriedolaeth yn cydnabod y 10,000fed unigolyn i gymryd rhan yn ei Menter Bêl-droed, cafodd y Tywysog a'r Dduges gwrdd pobl ifanc sydd wedi elwa ar y cynllun. Un o'r rhain oedd Delroy Naif, 20 oed, o Toxteth. Dangosodd Delroy lun i'r Tywysog o'i ferch dwy flwydd oed, a oedd wedi'i dynnu ar ei ffôn symudol. Dywedodd Delroy: "Hi yw fy rheswm dros ymuno ag un o gynlluniau *The Prince's Trust*. Roeddwn i am wneud rhywbeth i'w gwneud hi'n falch ohonof i."

Hon oedd yr ail flwyddyn yn olynol i'r ymddiriedolaeth gynnal ei seremoni wobrwyo Clodfori Llwyddiant (*Celebrate Success Awards*). Pwrpas y seremoni yw tynnu sylw at gyflawniadau pobl ifanc o bob rhan o'r wlad sydd wedi goresgyn rhwystrau yn eu bywydau. Cafodd y digwyddiad ei gynnal yn y Theatr Frenhinol, Drury Lane, yn Llundain ym mis Chwefror 2006. Roedd hefyd yn gyfle i lansio'n swyddogol y digwyddiadau i ddathlu pen-blwydd yr ymddiriedolaeth yn 30 oed.

Tywysog Cymru'n cwrdd pobl ifanc un o Fentrau Tîm *The Prince's Trust* yn ystod ymweliad â Chymbria.
Trwy gwrteisi Frederick Wilson.

Un o'r rhai a gafodd wobr gan y Tywysog a'r Dduges yn ystod y seremoni arbennig oedd Kynda Carter, 29 oed, sydd wedi gweddnewid ei fywyd, gyda help yr ymddiriedolaeth, ar ôl treulio cyfnod mewn carchar. Yn ystod ei gyfnod yn y carchar, dysgodd fod ganddo dalentau fel saer coed. Ar ôl gadael y carchar, cafodd fenthyciad gan yr ymddiriedolaeth i gychwyn y busnes gwneud gwelyau pîn a grisiau arbenigol mae bellach yn ei redeg yn Hertford. "Nid yr hyn mae rhywun yn gallu'i wneud sy'n bwysig bob amser. Beth sy'n bwysig yw'r hyn y gall rhywun ei gyflawni", meddai Kynda ar ôl casglu ei wobr.

Atsain o eiriau'r Tywysog ei hun yw'r geiriau yma. Yn ei araith yn ystod seremoni Clodfori Llwyddiant dywedodd y Tywysog: "Rwy'n dal i gredu bod rhyw dalent neu allu gan bob person ifanc, a bod gormod yn byw eu bywydau heb ddod o hyd i neu ddatgloi eu galluoedd. Gall hyn arwain at deimlad llethol o ddiffyg hunanwerth a hunanhyder, heb synnwyr o berthyn a bod rhywun arall yn malio amdanyn nhw. Wrth gwrs, mae llawer o'r bobl ifanc yma'n cael eu diystyru fel lowtiaid, hwdis neu hwliganiaid neu ba beth bynnag. Ond dydyn nhw ddim yn ddi-wyneb ac yn ddienw. Unigolion ydyn nhw ac rwy'n awyddus iawn i fy ymddiriedolaeth fuddsoddi yn eu dyfodol er mwyn iddyn nhw weld gwerth eu bywydau er eu lles eu hunain, ac er lles eu teuluoedd, eu cymunedau a'u gwlad.

IECHYD

CANOLFAN BYW'N IACH WELLSPRING, BRYSTE
Bob dwy flynedd, mae Sefydliad Tywysog Cymru er Iechyd Integredig yn gwobrwyo cyrff sy'n cyflwyno gwasanaethau iechyd integredig sy'n diwallu anghenion eu cymuned leol. Ym mis Ionawr 2006, aeth ei Wobr am Arferion Da i Ganolfan Byw'n Iach Wellspring ym Mryste.

Cafodd y ganolfan iechyd yng nghanol y ddinas ei dylunio a'i chynllunio gan drigolion lleol a fu'n galw am ofal iechyd mwy holistig a oedd yn rhoi sylw i ofynion penodol y gymuned leol o ran iechyd. Mae'r Ganolfan yn gartref i nifer o wasanaethau presennol yr ardal, yn cynnwys meddygon teulu a nyrsys, fferyllfa, podiatregydd, a gwasanaethau cynorthwyo'r rhai sy'n gaeth i alcohol a chyffuriau. Mae'n cynnig mathau traddodiadol o ofal iechyd yn ogystal â dosbarthiadau celf a chrefft, tylino'r corff, aciwbigo, homeopathi, shiatsu ac aromatherapi.

Soniodd Sian Delahaye, ar ran *Community at Heart*, y project a ariannodd Canolfan Wellspring, am ei hapusrwydd wrth weld y Tywysog yn dod i'r ganolfan i gyflwyno'r wobr a fydd yn dod â grant o £2,500 ar gyfer creu Project Pobl Hŷn. Dywedodd: "Mae'n hyfryd ei weld e yma. Cafodd rhan yma'r ddinas ei hesgeuluso ers amser maith, ac mae'n fendigedig ei gweld hi'n cael ei chydnabod am y rhesymau iawn."

Ers peth amser, bu Tywysog Cymru'n ymwneud â llawer o wahanol fudiadau gofal iechyd trwy gynnig help ar ffurf cefnogaeth bersonol a chyllid, a thrwy ymweld yn rheolaidd ag ysbytai a hosbisau. Bu ers tro byd hefyd o blaid dull integredig o feddwl am ofal iechyd. Mae hyn yn golygu rhoi pwyslais ar atal problemau iechyd ac ar fynd i'r afael â'r achosion cymdeithasol ac amgylcheddol sy'n peryglu iechyd. Mae hefyd yn golygu defnyddio therapïau cyflenwol sydd wedi'u profi ar y cyd â meddygaeth gonfensiynol.

Ym mis Mai 2005, manteisiodd Ei Uchelder Brenhinol ar gyfle i dynnu sylw at fuddion iechyd integredig pan gafodd ei wneud yn Gymrawd Anrhydeddus o'r Gymdeithas Frenhinol er Meddygaeth (*Royal Society of Medicine*) er mwyn cydnabod ei waith dros bob agwedd ar ofal iechyd.

Wrth annerch ar ôl derbyn ei Gymrodoriaeth, dywedodd Ei Uchelder Brenhinol ei bod hi'r adeg iawn i newid ffordd pobl o feddwl am ofal iechyd, gan symud at agwedd fwy integredig. Ym mis Hydref 2005, cafodd adroddiad ei gyhoeddi'r oedd y Tywysog wedi'i gomisiynu i edrych ar yr achos economaidd dros ddefnyddio mwy ar therapïau cyflenwol. Casgliad yr adroddiad oedd y gallai defnyddio mwy ar y therapïau yma helpu i gau bylchau lle mae gofal iechyd confensiynol yn aneffeithiol. Trafododd meddygon teulu'r adroddiad yma'n ddiweddarach yn yr un mis, wrth i gynhadledd gyntaf rhwydwaith newydd o'r enw *GP Associates* gael ei chynnal yn Llundain. Daeth meddygon ac ymarferwyr gofal iechyd confensiynol eraill sydd o blaid dulliau integredig i'r gynhadledd.

Cafodd y rhwydwaith ei sefydlu gan Sefydliad Tywysog Cymru er Iechyd Integredig (*The Prince of Wales's Foundation for Integrated Health*), elusen sy'n hybu a chefnogi gofal iechyd integredig ar draws y DU. Mae'n annog gwell gwaith ymchwil i arferion iechyd cyflenwol, ac yn pwysleisio bod angen eu rheoleiddio'n well.

UWCHBEN
Y Dduges yn cwrdd Jean Bishop,
sy'n codi arian ar ran y Ganolfan
Byw'n Iach y mae *Age Concern* yn
ei rhedeg yn Hull.
Trwy gwrteisi Robin Nunn.

Un o flaenoriaethau Ei Uchelder Brenhinol bob amser fu gweithio gydag elusennau canser. Un o amryw ddigwyddiadau'r llynedd ym maes canser oedd derbyniad a roddodd y Tywysog a'r Dduges yn Clarence House i Ferched y Calendr, aelodau enwog Sefydliad y Merched Sir Efrog a gafodd dynnu eu lluniau'n noethlymun. Yn y diwedd, cododd y grŵp dros £1 filiwn at ymchwil liwcemia. Yn ystod y digwyddiad dywedodd Angela Baker, un o Ferched y Calendr: "Mae'n fendigedig cael pawb yma heddiw. Bod gyda'n gilydd sydd wedi ein helpu ni i gyflawni cymaint. A bu'r Tywysog gyda ni bob cam o'r ffordd."

Fel ei gŵr, mae Duges Cernyw'n cefnogi elusennau iechyd, a'i rôl fwyaf amlwg yw fel Llywydd y Gymdeithas Osteoporosis Genedlaethol. Fel rhan o'r rôl honno yr aeth hi i Hull ym mis Chwefror 2006 i ddiolch i weithwyr elusennau lleol a gododd £700,000 i brynu sganwyr esgyrn i Ganolfan Clefydau Metabolig yr Esgyrn yn Ysbyty Brenhinol Hull.

Yn yr Ysbyty, soniodd Ei Huchelder Brenhinol wrth bobl sy'n cael triniaeth ar gyfer osteoporosis am ei phrofiadau ei hun o'r cyflwr. Dywedodd: "Dechreuais weithio ym maes osteoporosis ar ôl i fy mam a fy mam-gu farw o effeithiau'r clefyd ofnadwy yma. Yr adeg honno, dim ond 11 mlynedd yn ôl, ychydig iawn o bobl oedd yn sôn am y clefyd, anaml iawn y câi rhywun ddiagnosis, ac roedd rhywun yn tueddu i dderbyn bod gwragedd hŷn yn gefngrwm. Rydyn ni wedi symud ymlaen yn rhyfeddol o dda ers hynny, ond mae llawer i'w wneud o hyd."

ADDYSG

Daw dau o brif amcanion gwaith Tywysog Cymru – helpu pobl ifanc i wireddu eu potensial llawn a'i awydd i hybu buddsoddi yn nyfodol y wlad – at ei gilydd yn ei ymdrechion i wella darpariaethau addysg a chyfleoedd yn y DU. Mae ei gefnogaeth yn amlwg yng ngwaith sawl un o brif elusennau Ei Uchelder Brenhinol, trwy'r ffaith ei fod yn aelod oes o Gymdeithas Genedlaethol y Prif Athrawon ac yn y ffordd y mae'n noddi llawer o achosion addysgol.

Un o fentrau addysgol mwyaf amlwg y Tywysog yw ei Ysgol Haf Addysg sydd bellach yn ei phumed flwyddyn. Cafodd ei sefydlu fel cyfle i athrawon Saesneg a Hanes ysgolion uwchradd gwladol ddod at ei gilydd bob blwyddyn gydag awduron ac academyddion amlwg i drafod yr elfennau hanfodol ar eu pynciau, ac i ddod o hyd i ysbrydoliaeth newydd wrth addysgu.

Cafodd yr Ysgol Haf ddiweddaraf ei chynnal ym mis Mehefin 2005 yn Neuadd Dartington, Dyfnaint, a bu siaradwyr amlwg fel Alan Bennett a Seamus Heaney'n cymryd rhan. Cymaint yw llwyddiant yr Ysgol Haf fel bod y Tywysog wedi creu partneriaeth newydd gyda Phrifysgol Caergrawnt. Bydd y cwrs newydd, dan yr enw Rhaglen Caergrawnt y Tywysog ar gyfer Addysgu, yn parhau ac yn ymestyn gwaith effeithiol iawn y pum Ysgol Haf gyntaf. Bydd yn ategu pwysigrwydd rhannu gwybodaeth a chariad at ddysgu fel sylfeini addysg dda.

I raddau helaeth, yr athrawon eu hunain a alwodd am y newid at raglen barhaol sydd â chwrs preswyl yn graidd, ond sydd hefyd yn cynnig digwyddiadau yn y rhanbarthau, rhwydwaith alumni a chyrsiau a seminarau undydd. Bob blwyddyn, roedd mwy o ymgeiswyr nag o leoedd ar yr Ysgol Haf. Mae dros 500 o athrawon wedi elwa arni yn ystod ei phum mlynedd gyntaf, a barn Ei Uchelder Brenhinol oedd ei bod hi'n bryd symud ymlaen at y cam nesaf. Mae elusen newydd yn cael ei chreu i oruchwylio gwaith rheoli'r rhaglen gyda Phrifysgol Caergrawnt.

Ym mis Tachwedd 2005, aeth Ei Uchelder Brenhinol i'r Adran Addysg a Sgiliau yng nghanol Llundain i ddysgu am waith yr adran. Cafodd y Tywysog gyfarfod â Ruth Kelly, a oedd ar y pryd yn Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg a Sgiliau, ac aeth o gwmpas yr adran gan sgwrsio â'r staff.

Aeth y Tywysog yn ei flaen i Edgware i Ysgol Golegol Gogledd Llundain i gwrdd myfyrwyr a mynd i rai o'r dosbarthiadau, yn cynnwys Saesneg a Drama. Cafodd yr ysgol i ferched ei sefydlu yn 1850 gan Frances Mary Buss, un o arloeswyr addysgol oes Fictoria. Mae'r ysgol yn uchel iawn ei pharch fel un o sefydliadau addysgol gorau'r wlad, ac mae'n gweithio'n agos iawn gydag ysgolion cyfun Dagenham, Hounslow, Stanmore ac Islington. Daeth diwrnod y Tywysog i ben ym Mhrifysgol Rhydychen. Yno, cafodd gwrdd myfyrwyr a staff sy'n datblygu ac ymchwilio i faes biomimeteg (sy'n ceisio ymgorffori syniadau a strwythurau natur i dechnoleg wneud) cyn mynd yn ei flaen i Goleg y Drindod a Choleg San Ioan er mwyn anrhydeddu'r 450 mlynedd ers sefydlu'r ddau goleg.

YSGOL UWCHRADD WALTON

Ym mis Hydref 2005, aeth Tywysog Cymru i Ysgol Uwchradd Walton yn Nelson, Sir Gaerhirfryn (oddi tanodd), i gwrdd myfyrwyr sy'n cymryd rhan yn rhaglen 'clybiau xl' *The Prince's Trust*. Menter addysgol yw'r rhaglen sy'n helpu plant ysgol sy'n tangyflawni o bob rhan o'r wlad. Y llynedd, llwyddodd y clybiau xl sydd ar waith mewn 667 ysgol ar draws y DU i helpu dros 12,000 o ddisgyblion oedd yn cael trafferth dal ati gyda'u gwaith ysgol. Y nod yw rhoi hwb i hyder, symbyliad a hunan-barch pobl ifanc wrth ddatblygu eu gwahanol sgiliau ymarferol, a'u gwneud yn fwy deniadol i gyflogwyr. Mae pob clwb xl yn dod â thua dwsin o fyfyrwyr at ei gilydd am o leiaf tair awr yr wythnos i weithio mewn timau ac i wneud projectau cymunedol a hamdden.

Pan aeth y Tywysog i Ysgol Uwchradd Walton, cafodd wybod sut mae clwb xl yr ysgol wedi newid agweddau llawer o'r disgyblion sy'n cymryd rhan, gan wella'u presenoldeb a'u graddau.

Mae Sarah, aelod o glwb xl yn un o ysgolion yr Alban, yn nodweddiadol o'r rheini mae'r rhaglen wedi gweddnewid eu bywydau. Wrth sôn am y profiad, dywedodd: "Cyn ymuno â'r clwb xl, doeddwn i ddim yn mynd i'r ysgol llawer. Gwnaeth xl i mi fod eisiau dangos i'r rheini oedd yn credu fy mod i'n dwp y gallwn i hefyd lwyddo a gwneud y gwaith. Rydw i'n gwneud teithio a thwristiaeth yn y coleg nawr... Rydw i hefyd yn helpu aelodau mwyaf newydd y clwb xl, gan fy mod i am iddyn nhw hefyd gyflawni a manteisio i'r eithaf ar xl. Heb xl, faswn i ddim wedi trafferthu dod i'r ysgol o gwbl. I xl mae'r diolch am fy llwyddiant i."

Trwy gwrteisi Arthur Edwards.

BUSNES CYFRIFOL

Ers tro byd, bu diddordeb gan Dywysog Cymru mewn materion cymunedol a bu ganddo gysylltiadau agos ag arweinwyr byd busnes. Ar sail hynny, mae'r Tywysog mewn lle da i ddefnyddio'i safle i helpu i ddatblygu mentrau ym maes cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol ledled y DU a thramor. Ei gred yw bod y gallu gan y sector preifat i wneud gwahaniaeth sylweddol i lawer o'r sefyllfaoedd a'r problemau sy'n wynebu cymunedau.

Bu annog busnesau i helpu i leddfu problemau cymdeithasol yn ganolog i waith Busnes yn y Gymuned (*Business in the Community* neu BITC) ers tro byd. Un o elusennau mwyaf y Tywysog yw BITC, ac mae dros 750 o gwmnïau'n perthyn iddi. Maen nhw wedi ymrwymo i weithio gyda'i gilydd i wella eu heffaith ar gymdeithas a'r amgylchedd.

Un o fentrau mwyaf effeithiol BITC yw Rhaglen A Wêl a Gred Tywysog Cymru (*The Prince of Wales's Seeing is Believing Programme* neu SIB). Mae SIB yn annog arweinwyr busnesau i fynd i'r afael â phroblemau cymdeithasol trwy fynd i rai o'r ardaloedd gwaethaf o amddifadedd mewn trefi i weld yr heriau eu hunain. Ym mis Rhagfyr 2005, bu Ei Uchelder Brenhinol mewn cynhadledd a derbyniad yn Llundain i glodfori'r 15 mlynedd ers sefydlu SIB.

Un o'r projectau a gafodd ei sefydlu ar ôl ymweliad SIB yw'r fenter Busnesau'n Gweithredu ar Ddigartrefedd (*Business Action on Homelessness*). Yn ystod y gynhadledd, siaradodd un o'r rhai a elwodd ar y fenter wrth arweinwyr busnesau. Esboniodd Mark Davies, cynfilwr a fu'n ddigartref ac yn gaeth i gyffuriau, wrth y gynulleidfa sut y cafodd ei fywyd ei weddnewid gan BITC. Ar ôl treulio peth amser mewn carchar, dilynodd Mr Davies raglen ddadwenwyno cyn mynd ar leoliad a gafodd ei drefnu trwy BITC. Mae bellach yn gweithio'n llawn amser fel peintiwr a phapurwr, ac esboniodd: "Nid clefyd yw digartrefedd a gall ddigwydd i unrhyw un. Rwy'n annog busnesau i gynnig lleoliadau gwaith yn amlach, gan eu bod yn gweddnewid bywydau fel y gwnaethon nhw i mi."

Yn y derbyniad, soniodd y Tywysog wrth arweinwyr busnesau am eu "rôl allweddol" wrth fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, yn ogystal â rhoi sylw i faterion cymdeithasol. Disgrifiodd newid yn yr hinsawdd fel yr her fwyaf i wynebu'r byd heddiw. Un o fentrau pwysicaf Ei Uchelder Brenhinol yn y maes yma yw'r Grŵp Arweinwyr Corfforaethol ar Newid yn yr Hinsawdd. Ei raglen Busnes a'r Amgylchedd sy'n trefnu'r grŵp, sef elusen sydd wedi'i chartrefu ym Mhrifysgol Caergrawnt.

UWCHBEN
Y Tywysog yn annerch Busnes yn y Gymuned.

Soniodd y Tywysog wrth arweinwyr busnesau am eu "rôl allweddol" wrth fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, yn ogystal â rhoi sylw i faterion cymdeithasol. Disgrifiodd newid yn yr hinsawdd fel yr her fwyaf i wynebu'r byd heddiw.

Uwch swyddogion gweithredol rhai o gwmnïau mwyaf y DU sy'n perthyn i'r Grŵp. Ym mis Mai 2005, anfonodd y Grŵp lythyr ar y cyd at y Prif Weinidog yn cynnig cefnogi'r llywodraeth wrth iddi ddatblygu polisïau newydd a fyddai'n mynd i'r afael yn y tymor hir â newid yn yr hinsawdd. Roedden nhw hefyd yn cynnig gweithio mewn partneriaeth gyda'r llywodraeth wrth fynd ati i atgyfnerthu ymdrechion y wlad a gweddill y byd i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr. Addawon nhw hefyd i annog busnesau eraill Prydain, cyhoedd y DU a llywodraethau a busnesau ar draws y byd i gefnogi'r ymdrech.

Mae'r Tywysog yn credu nad dim ond busnesau mwyaf y wlad a ddylai chwarae rhan wrth ddiogelu'r amgylchedd. Wrth ymweld â Chydffederasiwn Diwydiant Prydain (CBI) yn Llundain ym mis Mawrth 2006, anogodd busnesau bach a chanolig i fod yn fwy ymwybodol o'r amgylchedd. Yn ystod yr ymweliad, anogodd Ei Uchelder Brenhinol swyddogion gweithredol 60 o gwmnïau bach a chanolig Prydain i ddefnyddio ynni'n fwy effeithlon. Dywedodd fod modd helpu i leihau allyriadau carbon trwy fod yn fwy doeth wrth ddefnyddio ynni a thrwy fabwysiadu technolegau newydd, heb i gwmnïau fynd yn llai cystadleuol yn fasnachol.

Ym mis Chwefror 2006, trefnodd y Tywysog dderbyniad yn Clarence House er mwyn clodfori 10 mlynedd o fodolaeth un arall o raglenni BITC, Hil a Chyfleoedd (*Race for Opportunity*). Mae'r rhaglen yma'n helpu prif gyrff y sectorau preifat a chyhoeddus ar draws y DU i recriwtio pobl o leiafrifoedd ethnig, a meithrin mwy o amrywiaeth yn eu gweithlu. Dywedodd y Tywysog wrth y rhai a oedd yn y derbyniad nad bod yn wleidyddol gywir yw hybu amrywiaeth ethnig yn y gweithle, ond rhywbeth synhwyrol o safbwynt busnes. Mae dros 180 o gyrff, yn cynnwys Lloyds TSB, Sainsbury's a'r Fyddin, wedi cymryd rhan yn y cynllun ers iddo gael ei sefydlu.

Nid yw ymrwymiad y Tywysog i hybu arferion busnes mwy cyfrifol wedi'i gyfyngu i'r DU. Yn 1990, sefydlodd Ei Uchelder Brenhinol Fforwm Tywysog Cymru ar gyfer Arweinwyr Busnesau Rhyngwladol (*The Prince of Wales's International Business Leaders Forum* neu IBLF). Nod IBLF yw annog busnesau ar draws y byd i weithio gyda'i gilydd i fynd i'r afael â thlodi, annhegwch cymdeithasol a phroblemau amgylcheddol. Ym mis Tachwedd 2005, aeth y Tywysog i'r Cenhedloedd Unedig gyda Kofi Annan, Ysgrifennydd Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig, i seminar dan nawdd yr IBLF i drafod menter ymysg pobl ifanc.

Yn y seminar, clywodd y Tywysog a Mr Annan sut mae arweinwyr busnesau, asiantaethau'r Cenhedloedd Unedig ac eraill sy'n ymwneud ag annog entrepreneuriaid ifanc yn mynd i'r afael â phroblemau diweithdra ymysg pobl ifanc, a diffyg swyddi yn yr economïau newydd a'r rhai sy'n tyfu.

Mae'r IBLF hefyd yn gweithio gyda'r cwmnïau sy'n perthyn i'r fforwm i helpu cymunedau a gafodd eu llorio gan drychinebau naturiol. Yn ystod 2005-06, cynigiodd yr elusen gymorth a chyngor wrth ailadeiladu busnesau a gafodd eu llorio gan tsunami 2004 yn Asia a'r daeargryn yn Pacistan yn 2005.

YR AMGYLCHEDD NATURIOL

Ers degawdau, mae Tywysog Cymru wedi dangos diddordeb personol byw mewn materion amgylcheddol. Y prif themâu y bydd yn eu crybwyll yn aml yw'r angen am ddatblygu cynaliadwy, am stiwardiaeth gyfrifol dros ein hadnoddau naturiol ac am gydweithredu ar draws y byd i ddiogelu ein treftadaeth amgylcheddol.

Mae'r angen i lywodraethau'r byd gydweithio yn fwyaf amlwg efallai wrth fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd. Ym mis Mai 2005, lleisiodd Ei Uchelder Brenhinol ei gefnogaeth i gais gan arweinwyr corfforaethau'r DU i fusnesau mawr a'r llywodraeth gydweithio'n well wrth geisio lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr.

Daeth Ei Uchelder Brenhinol yn ôl at thema newid yn yr hinsawdd ym mis Hydref 2005 wrth gael ei gyfweld gan y BBC. Yn ystod y cyfweliad, dywedodd y Tywysog mai newid yn yr hinsawdd oedd yr "her fwyaf i wynebu dyn". Esboniodd ei fod yn teimlo bod rhaid iddo sôn yn gyhoeddus am ei bryderon gan nad oedd am i unrhyw wyrion ac wyresau a gâi yn y dyfodol ofyn iddo pam na wnaeth rhywbeth am y broblem.

Ychydig wythnosau ar ôl y cyfweliad, dywedodd y Tywysog wrth annerch dynion busnes ac amgylcheddwyr yn San Ffransisco fod rhaid i America arwain y ffordd wrth fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd. Wrth annerch cynhadledd a gafodd ei threfnu gan ei Raglen Busnes a'r Amgylchedd, dywedodd: "Mae'r argyfwng amgylcheddol yr ydyn ni'n ei wynebu'n un arall o'r sefyllfaoedd lle y gallai'r Unol Daleithiau ddefnyddio'i grym a'i dylanwad i helpu i dynnu amrywiol bobl a gwahanol sectorau'r gymdeithas at ei gilydd i frwydo dros un achos cyffredin."

Rôl busnesau wrth fynd i'r afael â phroblemau amgylcheddol oedd thema araith arall a draddododd Ei Uchelder Brenhinol ym mis Mai 2005 i Sefydliad y Cyfrifyddion Siartredig. Wrth lansio adroddiad newydd gan ei Grŵp Cyfrifyddu er Cynaliadwyedd (*Accounting for Sustainability Group*), dywedodd y Tywysog y gallai cyrff y sectorau cyhoeddus a phreifat fel ei gilydd wneud gwahaniaeth i'r amgylchedd trwy fynd ati i ddatblygu a mabwysiadu gwell ddulliau cyfrifyddu sy'n canolbwyntio ar gynaliadwyedd.

Cafodd record hirfaith y Tywysog o dynnu sylw at faterion yr amgylchedd ei gydnabod ym mis Mawrth 2006 wrth i Gronfa Bywyd Gwyllt y Byd (*World Wildlife Fund* neu WWF) gyflwyno Gwobr Ymwybyddiaeth iddo. Rhan o gynllun WWF – Gwobrwyon yr Amgylchedd a'r Cyfryngau ym Mhrydain – oedd gwobr y Tywysog. Dywedodd Robert Napier, Llywydd WWF, wrth gyflwyno'r wobr i'w Uchelder Brenhinol: "Teimlad WWF oedd bod Tywysog Cymru'n rhagori fel un eithriadol i ennill y wobr. Mae wedi dangos ei fod yn benderfynol nid yn unig i dynnu sylw at y problemau sy'n bygwth yr amgylchedd ac i gynnig atebion posib, ond mae hefyd yn symbylu newidiadau."

Un o'r heriau cadwraeth y bu'r Tywysog yn tynnu sylw ati ers tro byd yw'r perygl i'r albatros oherwydd dulliau pysgota lein hir, arfer sy'n lladd 300,000 o adar môr y flwyddyn. Ym mis Ebrill 2005, ymunodd Ei Uchelder Brenhinol â'r Fonesig Ellen MacArthur, y llongwraig a hwyliodd o gwmpas y byd, yn achlysur lansio Tasglu Gweithredu dros y Cefnforoedd (*Operation Ocean Task Force*) yn Llundain. Project yw hwn sy'n ceisio achub yr albatros sydd ar fin diflannu. Wrth lansio'r tasglu, dywedodd y Tywysog nad oedd modd iddo "eistedd yma a gwneud dim wrth i'r drasiedi anesgusodol yma o waith dyn fynd yn ei blaen yn anweladwy ac wedi'i hanghofio."

Teimlad Cronfa Bywyd Gwyllt y Byd oedd bod Tywysog Cymru'n rhagori fel un eithriadol i ennill y Wobr Ymwybyddiaeth. Mae wedi dangos ei fod yn benderfynol nid yn unig i dynnu sylw at y problemau sy'n bygwth yr amgylchedd ac i gynnig atebion posib, ond mae hefyd yn symbylu newidiadau.

DUCHY ORIGINALS

UWCHBEN
Teisen frau ac offer garddio llaw *Duchy Originals*. Rhan o ddewis eang o gynnyrch y cwmni.

Dechreuodd Tywysog Cymru ei gwmni bwyd ei hun, *Duchy Originals*, yn 1990 drwy lansio'i gynnyrch cyntaf – bisgedi o wenith a cheirch a oedd wedi'u tyfu'n organig ar Home Farm, Highgrove. Ers hynny, tyfodd y cwmni'n un o frandiau bwydydd a diodydd organig a naturiol mwyaf amlwg a llwyddiannus y DU. Mae'r cwmni'n gwerthu dros 200 o wahanol gynhyrchion sy'n dod â dros £1 filiwn o elw i elusennau bob blwyddyn.

Wrth sefydlu *Duchy Originals*, nod Tywysog Cymru oedd creu cwmni a oedd yn helpu ffermwyr bach i ddod o hyd i farchnad newydd ar gyfer eu nwyddau, ond a oedd hefyd yn cynnig bwydydd naturiol o safon i gwsmeriaid. Byddai hefyd yn hybu dulliau cynhyrchu mwy cynaliadwy a fyddai'n gwella ansawdd pridd ac yn diogelu'r amgylchedd. Heddiw, cymaint yw poblogrwydd y brand fel bod gwerthiant y cynnyrch wedi cynyddu i £46 miliwn yn ystod 2005-06, ac elw wedi cynyddu i £1.2 filiwn. Mae hynny'n golygu bod *Duchy Originals* wedi rhoi cyfanswm o bron £6 miliwn i Sefydliad Elusennau'r Tywysog.

Efallai mai un o brif ddatblygiadau'r flwyddyn oedd y penderfyniad i symud i faes cynhyrchu am y tro cyntaf. Arweiniodd y penderfyniad at sefydlu popty *Duchy Originals* yn Launceston, Cernyw. Mae'r popty'n cynhyrchu gwahanol fathau o bastai a nwyddau wedi'u gwneud o grwst, gan brynu'r rhan fwyaf o'r nwyddau crai yn lleol a chynnig swyddi i bobl leol.

Lansiodd y brand *Duchy Originals* ei ymgyrch hysbysebu gyntaf yn ystod 2005. Canolbwynt yr ymgyrch oedd Llundain a De-ddwyrain Lloegr, ac roedd yn cynnwys rhoi posteri ar fyrddau awyr agored a thacsis a hysbysebu yn rhai o'r prif gylchgronau bwyd.

Math arall o gynnyrch a gafodd ei lansio yn ystod y flwyddyn oedd offer garddio. Caiff yr offer eu gwneud yn y DU trwy bartneriaeth â chwmni Caldwells, un o brif gwmnïau gwneud offer garddio Prydain a chwmni a fu'n gwneud offer garddio o safon er 1770. Cynyddodd yr offer y dewis o gynnyrch heblaw bwyd sydd ar gael gan *Duchy Originals*, ac mae'r cwmni bellach yn gwerthu cynnyrch gofalu am y gwallt a'r croen.

Ond bwyd yw craidd y busnes o hyd, ac ym mis Awst 2005 enillodd *Duchy Originals* bedair gwobr aur arbennig yn achlysur y *Great Taste Awards* y mae Urdd y Mân-werthwyr Bwydydd Da (*Fine Food Retailers*) yn ei rhedeg. Mae'r gwobrwyon yma, a llwyddiant y cwmni ei hun, yn dangos bod *Duchy Originals* yn cyflawni ymrwymiad gwreiddiol y Tywysog i greu "cylch bendithiol". Ystyr hyn yw bod busnes yn helpu i ddiogelu'r amgylchedd trwy ffermio'n organig, yn cynorthwyo'r ffermwyr a'r cynhyrchwyr bwyd llai, yn cynnig cynnyrch o safon ac yn creu incwm ar gyfer elusennau.

YR AMGYLCHEDD ADEILEDIG

Mae awydd Ei Uchelder Brenhinol i ddiogelu a chynnal yr amgylchedd naturiol cyn gryfed â'i ddiddordeb yn yr amgylchedd adeiledig a'r ffordd y mae'n effeithio ar ansawdd bywydau pobl. Cred y Tywysog yw bod modd gwneud mwy i greu ardaloedd trefol sy'n annog synnwyr o gymuned, balchder a pherthyn, ac sy'n meithrin lles y rhai sy'n byw yno ac yn lleddfu problemau cymdeithasol.

Er mwyn helpu i roi ei syniadau a'i egwyddorion ar waith, sefydlodd Ei Uchelder Brenhinol ei Sefydliad Pensaernïaeth yn 1992. Chwe blynedd yn ddiweddarach, mae Sefydliad y Tywysog er yr Amgylchedd Adeiledig (*The Prince's Foundation for the Built Environment*) wedi esblygu o'r man cychwyn yna. Erbyn heddiw, mae'r Sefydliad yn cynnig gwasanaethau ymgynghori ac addysg i brojectau mawr sy'n datblygu neu'n adfywio trefi.

Yr enghraifft amlycaf o egwyddorion y Sefydliad ar waith yw Poundbury, Dorset, lle y bu'r Tywysog yn goruchwylio'r estyniad ar dref Dorchester ar dir Dugaeth Cernyw am yr 16 mlynedd diwethaf. Mae'r Ddugaeth wedi helpu i feithrin synnwyr o gymuned yn Poundbury mewn sawl ffordd. Mae'r dref yn integreiddio tai preifat a thai cymdeithasol; mae'r strydoedd yn ffafrio cerddwyr; mae llai o bwysau cymudo gan fod swyddfeydd a chyfleusterau masnachol wedi'u lleoli mewn ardaloedd preswylio; ac mae dyluniad yr adeiladau'n adlewyrchu cymeriad yr ardal a thraddodiadau pensaernïol.

Ym mis Mehefin 2005, aeth Ei Uchelder Brenhinol i gwrdd y 100fed tenant i gael tŷ fforddiadwy yn Poundbury. Caiff cartref newydd Rebecca ac Antony McDonald a'u pedwar plentyn ei redeg gan Ymddiriedolaeth Guiness ac, ar ôl rhoi'r allweddi i'r teulu, dywedodd y Tywysog: Mae hwn yn ddiwrnod rhyfeddol ac yn gam pwysig i'r datblygiad cyfan", cyn ychwanegu bod Poundbury wedi llwyddo i ddangos i'w feirniaid fod modd i dai fforddiadwy a thai preifat oroesi gyda'i gilydd.

Mae'r egwyddorion cynllunio a dylunio sydd ar waith yn Poundbury yn cael eu defnyddio hefyd wrth ymestyn tref ar dir Dugaeth Cernyw yn Newquay, Cernyw. Yn y ddau le, un o'r prif uchelgeisiau oedd creu cymuned iachach ar gyfer y bobl sy'n byw yno. Ym mis Ionawr 2006, anerchodd y Tywysog gynhadledd ym Mhalas St James's ar iechyd a dylunio trefi, gyda'i Sefydliad ef a Chronfa'r Brenin (*King's Fund*) yn gyd-drefnwyr. Dywedodd y Tywysog fod modd helpu i leddfu problemau iechyd a rhai cymdeithasol eraill trwy ddylunio tai a chymdogaethau'n well.

Ym mis Tachwedd 2005, talodd Amgueddfa Adeiladu Genedlaethol Washington DC deyrnged i ymdrechion y Tywysog i wella ansawdd yr amgylchedd adeiledig trwy gyflwyno Gwobr Vincent Scully iddo fel ffordd o gydnabod ei waith a'i gyfraniad i'r drafodaeth ar bensaernïaeth a chynllunio trefi.

Cred y Tywysog hefyd y dylai gwaith dylunio cymunedau newydd roi sylw i ddiogelu'r amgylchedd naturiol. Ym mis Ionawr 2006, aeth i Sir Northampton i weld drosto'i hun sut mae'r estyniad ar dref Upton yn rhoi sylw i faterion yr amgylchedd, gyda chymorth y Sefydliad. Wrth wneud y gwaith, mae'r project yn defnyddio deunyddiau adeiladu lleol, yn gosod boeleri a bylbiau golau ynni isel mewn tai newydd, ac yn eu hinsiwleiddio â gwlân defaid yn lle deunyddiau gwneud.

Yn ogystal â helpu i adeiladu cymunedau newydd gwell, mae Ei Uchelder Brenhinol yn credu hefyd fod angen adfer ac ailddatblygu treftadaeth bensaernïol Prydain, pan mae adeiladau wedi'u hesgeuluso neu eu gadael yn wag. Ym mis Mehefin 2005, aeth i Royal Arsenal yn Woolwich, Llundain, i weld gwaith trawsnewid adeiladau'n dai preifat a thai fforddiadwy. Yn ddiweddarach yn yr un mis, aeth i Paisley ger Glasgow i agor datblygiad Anchor Mills, sef project adfer y mae Ymddiriedolaeth y Tywysog er Adfer (*The Prince's Regeneration Trust*) yn ei gynorthwyo.

Nid yw'n bosib trawsnewid adeiladau hanesyddol yn ystyriol heb grefftwyr sydd â'r sgiliau angenrheidiol. Gwnaeth y Tywysog bopeth posib ers rhai blynyddoedd i annog a hyrwyddo addysgu sgiliau crefft a sgiliau adeiladu traddodiadol y DU. Un enghraifft yw'r rhaglen hyfforddi crefftwyr y bu Sefydliad y Tywysog er yr Amgylchedd Adeiledig yn ei rhedeg ers sawl blwyddyn. Yn 2005-06, cafodd cynlluniau eu datblygu ar gyfer integreiddio'r rhaglen i waith ehangach Ei Uchelder Brenhinol ym maes adfer.

Ym mis Medi 2005, aeth y Tywysog i weld project adfer arloesol ym Mhlas Woodchester ger Stroud, Sir Gaerloyw. Yno, dywedodd Stephen Davis, un o swyddogion Ymddiriedolaeth Plas Woodchester, fod angen gwneud mwy i annog pobl ifanc i fynd yn grefftwyr, gan ychwanegu: "Mae prinder mawr o bobl yn y meysydd yma, ac rwy'n credu mai barn y Tywysog yw bod angen gwneud mwy i annog pobl ifanc i fynd yn grefftwyr o bob math."

Ym mis Tachwedd 2005, talodd Amgueddfa Adeiladu Genedlaethol Washington DC deyrnged i ymdrechion y Tywysog i wella ansawdd yr amgylchedd adeiledig trwy gyflwyno Gwobr Vincent Scully iddo fel ffordd o gydnabod ei waith a'i gyfraniad i'r drafodaeth ar bensaernïaeth a chynllunio trefi.

Y CELFYDDYDAU

TELYNOR SWYDDOGOL Y TYWYSOG

Yn ogystal â chefnogi nifer o gyrff celfyddydol, mae Ei Uchelder Brenhinol hefyd yn noddi artistiaid unigol. Yn 2000, aeth ati i adfer swydd Telynor Tywysog Cymru i helpu i feithrin ac anrhydeddu talentau cerddorol Cymru a'r DU, ac i dynnu sylw hefyd at y delyn ei hun fel offeryn cerdd.

Y delynores sy'n dal y swydd ar hyn o bryd yw Jemima Phillips (ar y dde) o Lynebwy. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, perfformiodd Jemima mewn nifer o achlysuron brenhinol, yn cynnwys y derbyniad yng Nghastell Windsor ar ôl priodas y Tywysog a'r Dduges ym mis Ebrill 2005, ac yn agoriad y Senedd, siambr drafod newydd Cynulliad Cymru, yng Nghaerdydd ym mis Mawrth 2006.

Yn ôl Jemima, "anrhydedd fawr" yw bod yn Delynores Swyddogol, ond gall arwain at wir fanteision proffesiynol. Dywedodd Catrin Finch, ei rhagflaenydd, wrth adael y swydd yn 2004: "Mae wedi agor mwy o ddrysau i mi nag y gallai unrhyw beth arall fod wedi'i wneud."

Mae Ei Uchelder Brenhinol wedi bod yn frwd ei gefnogaeth bob amser i'r celfyddydau. Mae'n credu'n gryf bod rhagoriaeth yn y celfyddydau'n agwedd hanfodol ar gymdeithas wareiddiedig, amrywiol. Yn ogystal â'i brif elusennau celfyddydol ei hun – Celfyddyd a Busnes, Sefydliad Tywysog Cymru er Celfyddyd a Phlant, Ysgol Lluniadu'r Tywysog ac Ysgol y Tywysog er y Celfyddydau Traddodiadol – mae hefyd yn gweithredu fel llywydd neu noddwr tua 30 o fudiadau celfyddydol eraill y DU.

Bob blwyddyn, mae Ei Uchelder Brenhinol yn gweithio'n galed i gynnal y mudiadau celfyddydol y mae'n uniongyrchol gysylltiedig â nhw. Mae'n mynd i'w cyngherddau, yn cynnal derbyniadau ar gyfer eu cefnogwyr, ac yn annog eu rhaglenni datblygu. Mae hefyd yn noddi artistiaid a cherddorion ifanc ei hun, fel ei Delynores Swyddogol, ac mae'n arbennig o awyddus i helpu pobl ifanc i flasu'r gorau sydd gan gelfyddydau'r DU i'w gynnig. Ym mis Chwefror 2006, er enghraifft, ymunodd Tywysog Cymru â dros 450 o blant ysgol yn un o arddangosfeydd Celfyddyd a Phlant yn Llundain. Canlyniadau project cenedlaethol oedd yn cael eu harddangos, lle'r oedd disgyblion 28 o ysgolion wedi ymuno ag artistiaid proffesiynol mewn gweithdai ar draws y wlad. Un o'r artistiaid a fu'n gweithio gyda'r plant oedd y darlunydd Quentin Blake.

Mae'r Dduges hefyd yn frwd ei chefnogaeth i'r celfyddydau. Un o uchafbwyntiau blwyddyn Ei Huchelder Brenhinol oedd ei hymweliad cyntaf â Theatr Unicorn i Blant yn Llundain, ers iddi fynd yn Noddwr arni. Ers iddi gael ei sefydlu yn 1947, enillodd yr Unicorn sawl gwobr am gynhyrchu projectau proffesiynol ym myd theatr ac addysg i blant 4-12 oed. Ym mis Mawrth 2006, aeth y Dduges i weld ymarferiadau, i wylio perfformiad ar gyfer ysgolion yn y prif awditoriwm, ac i gwrdd plant a oedd yn cymryd rhan mewn gweithdy addysg.

Mae Eu Huchelderau Brenhinol hefyd yn cefnogi'r celfyddydau llenyddol. Ym mis Chwefror 2006, aeth y ddau i dderbyniad yn Academi Frenhinol y Celfyddydau yn Llundain i ddathlu canmlwyddiant Llyfrgell Everyman, sy'n cyhoeddi fersiynau fforddiadwy o'r clasuron. Yn ystod y digwyddiad, roedd y Tywysog yn fawr ei glod o Everyman. Yn yr wyth mlynedd ddiwethaf yn unig, mae'r llyfrgell wedi rhoi set gyfan o'i phrif gyfres o 300 llyfr i bob ysgol uwchradd wladol yn y DU, ac i 1,700 o ysgolion a llyfrgelloedd mewn 77 o wledydd sy'n datblygu.

Mae'r Tywysog bob amser wedi gweld addysg a hyfforddiant yn y celfyddydau fel blaenoriaethau. Ym mis Gorffennaf 2005 ac yn rhinwedd ei waith fel Llywydd Bwrdd Cysylltiol yr Ysgolion Cerdd Brenhinol, cyflwynodd dystysgrifau i athrawon cerdd newydd yn Academi Frenhinol y Celfyddydau. Mae'r cwrs dysgu'n gyfle i athrawon cerdd rannu arferion da a rhoi prawf ar eu dulliau dysgu eu hunain.

Bob blwyddyn, bydd y Tywysog yn mynd yn rheolaidd i'w Ysgol Lluniadu yn Shoreditch, Dwyrain Llundain, er mwyn cael gwybod sut mae'r myfyrwyr yn dod yn eu blaen. Canolfan ragoriaeth yw'r elusen addysgol yma sy'n arbenigo ar luniadu trwy arsylwi. Ym mis Tachwedd 2005, aeth Eu Huchelderau Brenhinol i gwrdd rhai o artistiaid yr Ysgol ac i weld eu gwaith mewn arddangosfa. Ers i'r Ysgol gael ei sefydlu yn 2000, mae bron 4,000 o fyfyrwyr wedi cael eu haddysgu ynddi.

Yn rhinwedd ei swydd fel Llywydd Cwmni Shakespeare Brenhinol (RSC), mae'r Tywysog yn mynd i Stratford-upon-Avon yn rheolaidd. Ym mis Tachwedd 2005, cadeiriodd Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Cwmni yn Theatr y Swan, aeth i gefn y llwyfan i gwrdd rhai o'r staff, a chlywodd am gynlluniau uchelgeisiol RSC i lwyfannu bob un o 37 drama Shakespeare yn ystod 2006. Ymddiheurodd y Tywysog yn ystod y cyfarfod am beidio â dod i Stratford yn amlach trwy ddweud: "Mae'n ddrwg gen i na fu'n bosib i mi ddod i Stratford yn fwy aml yn ystod blwyddyn a fu'n ddigon prysur i mi - arweiniodd Gwragedd Llon Windsor at Lawer o Ffwdan ond mae Popeth yn Dda a Ddiweddo'n Dda!"